| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU<br>Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 | Conwy County Borough Council<br>Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU<br>School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 |
|---|---|
| Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 4.1, 4.2 & 4.3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Côd Trefniadaeth Ysgolion - Ail argraffiad, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig:<br><br>**Bod darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd yn cael ei hagor ar gyfer dysgwyr oed uwchradd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig.**<br><br>Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd â hwy, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:<br>https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Education-and-Families/Education-Consultations/Education-Consultations.aspx<br><br>Bydd y Panel Cymedroli Anghenion Dysgu Ychwanegol yn delio â derbyniadau ar gyfer y ddarpariaeth newydd.<br><br>Darperir Cludiant Cartref i Ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Cartref i Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.<br><br>O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn 22ain Mawrth gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig at:<br><br>Gwasanaethau Addysg, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN neu e-bost i:<br>moderneiddo.ysgol@conwy.gov.uk<br><br>Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyhoeddi crynhoad o unrhyw wrthwynebiadau o’r fath a wnaed o fewn y cyfnod gwrthwynebu (ac sydd ddim wedi ei dynnu’n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â sylwadau’r | Notice is hereby given in accordance with Sections 4.1, 4.2 and 4.3 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code – Second Edition, that Conwy County Borough Council, having consulted such persons as required, propose:<br><br>**That new additional learning provision is opened for secondary age learners with autism and associated neurodevelopmental difficulties.**<br><br>Conwy County Borough Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposers’ responses and the views of Estyn is available on the Conwy County Borough Council, Education Services website:<br><br>https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Education-and-Families/Education-Consultations/Education-Consultations.aspx<br><br>Admissions for the new provision will be dealt with by the Additional Learning Needs Moderation Panel.<br><br>Home to School Transport will be provided in accordance with Conwy County Borough Council’s Home to School Transport Policy.<br><br>Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by 22nd March, any person may object to the proposal. Objections should be sent in writing to:<br><br>Education Services, PO Box 1, Conwy, LL30 9GN or email to:<br>School.Modernisation@conwy.gov.uk<br><br>Conwy County Borough Council will publish a summary of any such objections made within the objection period (and not withdrawn in writing), together with the Council’s observations thereon, within a period of 28 days after the end of the |

| | |
|---|---|
| Cyngor arnynt, o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. | objection period. |
|  |  |
| Dr Lowri Brown<br>Pennaeth Gwasanaeth Addysg<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Dyddiad: 22ain Chwefror 2021 | Dr Lowri Brown<br>Head of Education Services<br>Conwy County Borough Council<br>Date: 22nd February 2021 |
| Nodyn Esboniadol<br>(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond caiff ei gynnig fel eglurhad) | Explanatory Note<br>(The Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation) |
| Mae'r Cyngor yn cynnig agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd ar gyfer dysgwyr oed uwchradd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig. | The Council is proposing to open new additional learning provision is for secondary age learners with autism and associated neurodevelopmental difficulties. |
| Nodwyd y rhesymau dros y cynnig hwn yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar 6ed Mawrth 2020. | The reasons for this proposal were set out in the Consultation Document published 6th March 2020. |
| Mae copi o Bolisi Cludiant Cartref i'r ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael ar wefan y Sir. | A copy of the Conwy County Borough Council's Home to School Transport Policy are available on the County's website. |
| Mae'r hysbysiad hwn yn nodi dechrau Cyfnod Gwrthwynebu o 28 diwrnod o **22ain Chwefror i 22ain Mawrth 2021** ac yn nodi'r cyfeiriad y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig. | This notice marks the start of a 28 day Objection Period from **22nd February to 22nd March 2021** and sets out the address to which objections in writing may be submitted. |
| Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynnig hwn ar: | All documentation relating to this proposal can be found at: |
| Ymgynghoriad ar darpariaeth dysgu ychwanegol newydd yn Ysgol Aberconw.aspx | Consultation on New Additional Learning Provision Ysgol-Aberconwy.aspx |